

Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

Cynghorydd: Mark Child	Adran Etholiadol: West Cross
-------------------------------	-------------------------------------

Swydd Cyflog Uwch:	Aelod y Cabinet – Lles a Dinas Iach
---------------------------	-------------------------------------

Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd stryd mewn nifer o ardaloedd, gan nodi materion megis arwyddion stryd, tyllau yn y ffordd, cyfarpar chwarae i blant, baw cŵn, a nifer o faterion eraill yr adroddwyd amdanynt i'r cyngor, yn ogystal â materion a phroblemau unigolion.

Cynhaliais gymorthfeydd rheolaidd ar gyfer etholwyr gan fynd i'r afael â materion megis tai, datblygu, y gwasanaethau cymdeithasol, cynnal a chadw strydoedd, parciau a nifer o faterion eraill sy'n ymwneud â'r cyngor, gan roi cyngor a chymorth lle bynnag y bo modd.

Bues i'n cwrdd â swyddogion o Swyddfa Dai West Cross yn aml i drafod materion sy'n ymwneud â lles tenantiaid a'r stâd dai yn West Cross a mynd i'r afael â'r materion hyn.

Bues i'n cwrdd â busnesau lleol er mwyn cynnig help i'w cynnal a'u helpu i gyfrannu at yr ardal leol.

Gweithiais i wella diogelwch o gwmpas ysgolion lleol megis Ysgol Gynradd Grange, Ysgol Gynradd Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw gan osod terfynau cyflymder 20mya, llinellau melyn, cynyddu patrolau parcio, gosod arwyddion a cheisio gwella ymwybyddiaeth rhieni o'r peryglon maent yn eu creu, yn ogystal â thrafod y manteision i'w plant o gerdded i'r ysgol.

Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Y Cabinet	11	/	15	73.33	%
Pwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr	1	/	1	100.00	%
Y Cyngor	11	/	16	68.75	%
Panel Ariannu Allanol	5	/	8	62.50	%
Grŵp Llywio Partneriaeth AoHNE Gŵyr	3	/	4	75.00	%
Cyffredinol	31	/	44	70.45	%

Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Grange, gan helpu gyda materion cyllid yn bennaf yn ystod y flwyddyn. Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun yr Esgob Gore gyda chyfrifoldeb arbennig am Fathemateg a Diogelu, ac yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

Aelod o Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr a'i is-bwyllgor grantiau.

Aelod o fwrdd Pwll Cenedlaethol Cymru.

Cymerais ran yn Fforwm Dinas Iach y DU.

Cymerais ran yn Rhwydwaith Cydlynu Ardaloedd Lleol y DU.

Fi oedd Cadeirydd Fforwm Dinas Iach Abertawe lle mae'r cyngor, gweithwyr iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth tân, y trydydd sector ac eraill yn ceisio gwella iechyd a lles holl ddinasyddion Abertawe drwy gyflwyno mentrau a thrwy ddilyn cyfarwyddiadau gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe.

Aelod o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe.

Aelod o Fforwm Partneriaeth Bae'r Gorllewin.

Aelod o Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

Aelod o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe.

Cynghorydd sy'n gyfrifol am fioamrywiaeth yn Abertawe.

Cymerais ran wrth ddewis a chyflwyno gwobrau chwaraeon blynyddol Abertawe.

Cyflwynais dystiolaeth i nifer o Bwyllgorau Craffu.

Cwrddais â nifer o glybiau a chymdeithasau chwaraeon er mwyn trafod diogelu a gwella'u gallu i dyfu a galluogi eraill i gymryd rhan, gan gynnwys beicio, paffio a chriced.

Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Hyrwyddais y fenter Cydlynu Ardaloedd Lleol (CALI), gan gynnwys dyblu nifer y cydlynwyr drwy benodi tri chydlynnydd ardal leol arall yn Abertawe. Gofynnais am gefnogaeth ymarferol gan sefydliadau ar draws Abertawe ar gyfer Cydlynu Ardaloedd Lleol. Mae'r fenter hon yn bwriadu gwella ansawdd bywyd pobl a chydnerthedd cymunedol ac, o ganlyniad, eu hangen am myriad allanol.

Cefnogi'r Gweithgor Blynyddoedd Cynnar er mwyn gwella dechrau bywyd plant yn Abertawe, gan gynnwys lansio a hyrwyddo ymgyrch y "Jacks" i helpu i wella sgiliau magu plant yn Abertawe.

Roedd grwpiau a rhwydwaith Ffrindiau Parciau wedi parhau i dyfu ar draws Abertawe. Roeddwn yn rhan o lansio ymgyrch canser y croen "lobster" ar draws traethau lleol.

Rwyf o hyd yn ychwanegu at safleoedd blodau gwynt Abertawe ac yn siarad â sefydliadau ar draws y DU sydd am efelychu'r syniad hwn.

Ymgymerais â gwaith yn cydlynu grwpiau diddordeb gwahanol ar draws yr ardal er mwyn gweithio i atal gadael ceffylau ar dennyn a chynyddu mynediad cŵn i draethau Abertawe.

Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Adran 5: Dysgu a datblygu

Es i i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

19/05/2017 - Gwneud Penderfyniadau Da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol

16/05/17 – Iechyd a Diogelwch (Llywodraethwr Ysgol)

11/05/2017 - Côd Ymddygiad

Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Aelod o Grŵp Cynghori Canol y Ddinas, lle rwy'n ceisio sicrhau canol dinas iach gyda llai o geir, lle i feicio a cherdded yn ddiogel, mannau gwyrdd a pharciau bach, dyluniad lle mae pobl yn teimlo'u bod yn gweddu iddo, yn ogystal â bod yn ysbrydus.

Hapus i dderbyn Gwobr y Faner Borffor unwaith eto gan y Gymdeithas Rheolwyr Canol Trefi oherwydd ansawdd a diogelwch canol y ddinas.

Es i i Weithdy Polisi Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Cymerais ran mewn digwyddiad Glanhau Traeth ar draeth Abertawe.

Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr

Cyflog Uwch: £32,000 Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliadau cynghorwyr yma:

<http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0>

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:

<http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0>

Dyddiad:	10.11.2017
-----------------	------------